**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

17 Ionawr 2020

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ynglŷn â'm hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 20 Tachwedd. Rwyf wedi ymateb i'ch cwestiynau isod.

**Twbercwlosis Buchol (TB)**

<u>Prynu doeth</u>

Yn 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru grant a oedd yn galluogi marchnadoedd da byw i wneud cais am hyd at 50% o gyllid grant i ddiweddaru eu cyfarpar a'u meddalwedd arddangos er mwyn gallu dangos gwybodaeth TB yn ystod gwerthiannau gwartheg. Cyn cyflwyno'r cyllid hwn, anfonwyd llythyr at bob ffermwr â buchesi rhydd o TB i roi gwybod iddynt am y fenter prynu doeth i annog arferion prynu doeth a'u hannog i rannu gwybodaeth TB wrth werthu gwartheg. Er bod y cyllid grant ar gael i bob marchnad gwartheg yng Nghymru, dim ond deg marchnad a gyflwynodd gais amdano. Roedd pob cais yn llwyddiannus. Mae'r meini prawf ar gyfer y cyllid grant i'w gweld yn y copi o'r daflen ffeithiau Prynu Doeth sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

Cynhaliwyd ymweliadau archwilio ôl-weithredu yn y marchnadoedd perthnasol i wirio eu cydymffurfiaeth â'r cyllid grant. Yn ystod yr ymweliadau, aseswyd a oedd eu ffurflenni cyn cofrestru gwartheg wedi cael eu diweddaru i wneud cais am wybodaeth TB, megis dyddiad y prawf cyn symud, dyddiad y prawf diwethaf ar y fuches gyfan a dyddiad diwethaf codi cyfyngiadau ar y fuches. Ystyriwyd hefyd a oedd y wybodaeth TB yn cael ei harddangos yn amlwg uwchben y cylch gwartheg fel y nodwyd yng ngofynion y cyllid grant. Yn anffodus, dangosodd yr archwiliadau mai ychydig iawn o wybodaeth TB oedd yn cael ei harddangos yn y marchnadoedd. Dangosodd trafodaethau â gweithredwyr ac arwerthwyr y marchnadoedd fod dau reswm am hyn: nid oedd gwybodaeth TB yn cael ei darparu gan werthwyr ac nid oedd prynwyr yn gofyn amdani.

Rwy'n ymwybodol o'r sensitifrwydd masnachol sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth TB mewn marchnadoedd, ynghyd â gwrthdaro buddiannau posibl i'r ffermwr, er enghraifft, gostyngiad posibl yng ngwerth y gwartheg pe bai'r wybodaeth hon yn cael ei harddangos. Fodd bynnag, mewn rhai rhannau o Gymru, gellir priodoli wyth o bob deg achos o TB i symudiadau gwartheg. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd prynu doeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae adborth o'r ymweliadau archwilio a chysylltiadau eraill â gweithredwyr marchnadoedd ac arwerthwyr yn dangos tra bod y ffermwr yn gallu dewis a yw eisiau darparu gwybodaeth TB i'r farchnad ei harddangos ai peidio, a nes ei fod yn ofyniad cyfreithiol i'w darparu a'i harddangos, mae cydymffurfiaeth yn debygol o fod yn anffafriol. Rydym yn parhau i annog ffermwyr i ofyn am wybodaeth TB yn y pwynt gwerthu, a marchnadoedd i'w harddangos.

Mae Prynu Doeth effeithiol gwirfoddol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r diwydiant gwartheg yng Nghymru gydnabod symudiadau gwartheg fel achos arwyddocaol achosion newydd o TB. Mae'n mynnu hefyd fod ffermwyr yn mynd ati i geisio lleihau'r risg o gyflwyno achosion newydd o TB fel hyn. Mae'r dystiolaeth sydd gennym o ddata symudiadau gwartheg ac achosion o TB yn awgrymu nad yw'r diwydiant yn llwyr gyd-fynd â hyn. Er mwyn i system wirfoddol weithio, mae angen cyfnewid gwybodaeth rhwng gwerthwyr a phrynwyr fel eu bod yn ymwybodol o statws TB anifeiliaid, y buchesi y maent yn tarddu ohonynt a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r anifeiliaid hyn i'w buches eu hunain. Er gwaethaf y mesurau rheoli sydd gennym ar waith, mae'r dystiolaeth epidemiolegol yn awgrymu bod gwartheg a brynir yn brif ffynhonnell o haint newydd. Mae profion cyn ac ar ôl symud yn lleihau'r risg hon, ond ni allant ddileu'r risg gan y gall gwartheg gael eu heintio ar ôl prawf neu efallai bod yr haint yn ei ddyddiau cynnar, yn rhy gynnar i ddod i'r amlwg yn y prawf.

Ar ôl ystyried y dull gwirfoddol yn ofalus, cynhaliwyd gwerthusiad o'r polisi ac, fel rhan o Raglen Dileu TB wedi'i hadnewyddu, cyhoeddais y byddai system orfodol yn cael ei chyflwyno. O ystyried nifer y symudiadau gwartheg ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, rydym yn gweithio gyda Defra i ddatblygu opsiynau ar gyfer system orfodol. Mae ffocws arbennig ar ddatblygu sgoriau risg buchesi a chanlyniadau posibl cyflwyno anifeiliaid risg uwch i fuches. Mae'n faes cymhleth iawn a fydd yn gofyn am ymgynghori a newid mewn deddfwriaeth. Mae risg y gallai system sydd ar waith yng Nghymru yn unig roi ein ffermwyr a'n marchnadoedd o dan anfantais o gymharu â Lloegr os na fydd gwybodaeth ychwanegol yn orfodol yno.

Rwy'n hapus i ddiweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd o ran datblygu cynllun gorfodol a gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol angenrheidiol maes o law. Yn y cyfamser, bydd fy swyddogion yn parhau i hyrwyddo manteision prynu doeth i ffermwyr a gweithredwyr marchnadoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys darparu cyngor ac arweiniad priodol i ffermwyr a gweithredwyr marchnadoedd.

<u>Digolledu ffermwyr</u>

Bwriad yr adolygiad o iawndal TB yw archwilio opsiynau i wneud y system yn gynaliadwy yn ariannol a sicrhau ei bod yn annog arferion da ac yn annog pobl i osgoi arferion gwael, gan weithio tuag at ein hamcan tymor hir o ddileu TB.

Mae'r adolygiad yn dal i fod yn y cyfnod datblygu cynnar ac, fel gyda phob newid polisi posibl o'r fath, mae'r opsiynau sydd ar gael wedi'u trafod gyda Bwrdd y Rhaglen Dileu TB. Nid oes unrhyw amserlen ar gyfer gwneud newidiadau wedi'i chytuno hyd yma, ond rwy'n gobeithio ymgynghori ar newidiadau arfaethedig erbyn diwedd 2020 fan pellaf.

<u>Cyllid ar gyfer y Rhaglen Dileu TB ar ôl Brexit</u>

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio cael ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i sicrhau y bydd cyllid TB a ddarperir gan yr UE ar hyn o bryd yn parhau ar ôl Brexit. Byddaf yn darparu mwy o wybodaeth cyn gynted ag y bydd ar gael.

Dros y tair blynedd a hanner diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi galw droeon ar Lywodraeth y DU i anrhydeddu'r addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch refferendwm yr UE na fyddai Cymru'n colli ceiniog o gyllid ar gyfer amaethyddiaeth ar ôl Brexit.

Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth y DU yn darparu'r un lefel o gyllid ag yr ydym yn ei derbyn gan yr UE ar hyn o bryd a hyblygrwydd llawn i benderfynu sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio.

**Amaethyddiaeth**

Cymorth i ffermwyr

Ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Defra, George Eustice AS, ataf ar 20 Rhagfyr yn cadarnhau ei fwriad i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth ym mis Ionawr. Bydd y Bil hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru barhau i weithredu Cynllun y Taliad Sylfaenol y tu hwnt i 2020. Rwy'n bwriadu cymryd pwerau yn y Bil i alluogi Cynllun y Taliad Sylfaenol i barhau y tu hwnt i 2020 i ddarparu sefydlogrwydd i ffermwyr yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd, a phwerau eraill sy'n bwysig i sicrhau gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y DU. Byddaf yn ceisio cael cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd ar gyfer y pwerau parhad hyn yn unol â'n Rheolau Sefydlog.

Gwrthfiotigau

Mewn ymateb i'r bygythiad o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR), mae Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (WAHWFG) wedi annog camau i reoli AMR gan bartneriaid cyflenwi milfeddygol, gan gynnwys ymarferion meincnodi presgripsiynu gwrthfiotigau ar raddfa fawr ac ar gyfer anifeiliaid unigol. Rydym yn cefnogi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Pum Mlynedd 2019 – 2024 y DU trwy ddatblygu a darparu rhaglen waith fanwl a defnyddio'r dull "Un Iechyd" trwy fynd i'r afael ag agweddau pobl, anifeiliaid ac amgylcheddol y bygythiad AMR gyda'i gilydd.

Fe gyhoeddon ni Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd: Cynllun Gweithredu ym mis Gorffennaf 2019. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan y Grŵp Cyflenwi AMR mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio, y proffesiwn milfeddygol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. I weld copi o'r Cynllun Gweithredu, ewch i https://llyw.cymru/ymwrthedd-gwrthficrobaidd-mewn-anifeiliaid-ar-amgylchedd-cynllun-gweithredu

Mae'r Grŵp newydd hwn, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn atebol i WAHWFG ac i'r grŵp rheoli AMR lefel uchaf yn Llywodraeth Cymru, a gadeirir gan y Prif Swyddog Meddygol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein hymdrechion yn gydnaws ag ymdrechion y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn cydweithio'n agos â chydweithwyr meddygol a bod elfennau pobl, anifeiliaid ac amgylcheddol AMR yn cael sylw mewn ffordd gydgysylltiedig.

Nid yw rheoleiddio'r proffesiwn milfeddygol a'r defnydd o wrthfiotigau wedi'i ddatganoli, ac fe arweinir y gwaith gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol a'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol. Amcanion y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol yw amddiffyn iechyd y cyhoedd a sicrhau lles anifeiliaid o safon uchel.

Yn y DU, mae gwrthfiotigau yn feddyginiaethau sydd ond ar gael ar bresgripsiwn gan filfeddyg, ac mae gofyniad cyfreithiol ar geidwaid da byw i gofnodi pob defnydd o feddyginiaethau. Mae gan bob meddyginiaeth presgripsiwn yn unig gyfnod tynnu'n ôl penodedig i ddiogelu'r gadwyn fwyd pobl, a chynhelir profion rheolaidd ar gynhyrchion cig a llaeth i ganfod olion meddyginiaethau o'r fath.

Dim ond milfeddygon sydd â'r fraint a'r cyfrifoldeb i allu presgripsiynu gwrthfiotigau ar gyfer anifeiliaid, ac mae gofyniad cyfreithiol ar geidwaid da byw i gofnodi pob defnydd o feddyginiaethau. Nid oes gofyniad cyfreithiol i gadw cofnod electronig o'r defnydd o feddyginiaethau, ac mae llawer o geidwaid da byw yn defnyddio llyfr cofnodi meddyginiaethau copi caled. Felly, byddai'n anodd cipio data defnydd cywir ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae mentrau'n cael eu datblygu yn y diwydiant i gofnodi'r defnydd o feddyginiaethau yn electronig, ac rydym yn ymgysylltu'n agos â'r gwaith hwn i ystyried pa ddata a allai fod ar gael yn y dyfodol. Er gwaethaf hyn, yn unol â'r ail brif nod yn ein Cynllun Gweithredu, rydym eisiau datblygu canllawiau ar gyfer milfeddygon yng Nghymru i wella'r penderfyniadau a wneir pan mae angen trin anifeiliaid â gwrthfiotigau.

Ni all y Llywodraeth reoli AMR mewn anifeiliaid yn unig. Mae rheoli clefydau heintus a'r gwrthfiotigau a ddefnyddir i'w trin yn nwylo ceidwaid anifeiliaid a'u milfeddygon. Felly, rydym angen i'r bobl hynny ac arbenigwyr gwyddonol weithio gyda'i gilydd, a chyda ni, i gyflawni'r nodau yng Nghynllun Gweithredu AMR mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd Cymru.

Rydym yn cefnogi gwaith ein partneriaid cyflenwi milfeddygol, gan gryfhau'r berthynas rhwng ffermwyr Cymru a milfeddygon. Mae creu diwylliant lle mae atal yn well na gwella, trwy gynllunio iechyd anifeiliaid a gwella bioddiogelwch, yn arwain at ostyngiad yn yr angen i anifeiliaid gael triniaeth yn y lle cyntaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydymffurfio cymaint â phosibl â'r UE a'i reoliadau presennol, gan gynnwys categoreiddio gwrthfiotigau hollbwysig. Yn ogystal, nid oes gennym ddiddordeb mewn agor ein marchnadoedd i anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid sy'n tarddu o wledydd lle defnyddir gwrthfiotigau fel deunyddiau hybu tyfiant. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gostwng y safonau presennol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Bydd safonau'n aros ar y lefelau presennol a byddai unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn gwella safonau, yn hytrach na'u gostwng.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol ac yn ymgysylltu'n llawn ar faterion i gytuno ar sefyllfa'r DU, gan gynnwys cydweithio agos rhwng gwahanol Brif Swyddogion Milfeddygol. Rwy'n hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi pan fydd materion yn codi, yn enwedig os bydd y DU yn ymadael â'r UE.

**Fframweithiau Cyffredin**

Mae Dadansoddiad Fframweithiau Diwygiedig Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2019, yn rhestru meysydd a all fod angen fframwaith cyffredin deddfwriaethol neu anneddfwriaethol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Dyma'r meysydd sydd wedi'u dosbarthu fel fframweithiau anneddfwriaethol sy'n rhan o'm portffolio:

- Ansawdd Aer
- Bioamrywiaeth
- Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr
- Defnyddio Ynni'n Effeithlon
- Yr Amgylchedd Morol
- Sylweddau Ymbelydrol

- Safonau Seilwaith Data Gofodol (INSPIRE)
- Y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol
- Yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth
- Rheoli Gwastraff (mae'r cyfrifoldeb dros bolisi gwastraff yn Llywodraeth Cymru yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ond fe'i rheolir gan Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig).

Mae cyhoeddiad Swyddfa'r Cabinet ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/792738/20190404-FrameworksAnalysis.pdf

Disgwylir i Fframweithiau Cyffredin fod ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2020. Mae trafodaethau yn parhau rhwng y pedair gweinyddiaeth. Mae'n debygol hefyd y bydd elfennau o Fframweithiau Cyffredin deddfwriaethol posibl yn cael eu rhoi ar waith trwy ddulliau anneddfwriaethol, megis Concordatiau a gytunwyd gan Weinidogion rhwng pedair gweinyddiaeth y DU.

Gall yr ansicrwydd ynghylch sut bydd y DU yn ymadael â'r UE ac amgylchiadau unrhyw gytundebau gyda'r UE a gwledydd eraill yn y dyfodol effeithio ar gwmpas, amseru a gweithredu fframweithiau cyffredin. Os bydd unrhyw newid arfaethedig i'r amserlen, byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi gwybod i chi.

**Y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG)**

Mae'r RhDG yn parhau i wneud cynnydd da. Rydym ymhell ar y blaen i dargedau gwariant yr UE ar hyn o bryd. Mae lefelau gwariant yn dod i dros £366 miliwn neu bron i 44% o'n dyraniad. Mae hyn yn gydnaws â'r cyfartaledd ar gyfer Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Mae'r RhDG yn rhaglen hyblyg a fydd yn cael ei theilwra yn ystod y cyfnod i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig, gan gynnwys ffermwyr a choedwigwyr.

Mae'n bwysig cofio, er mai rhaglen saith mlynedd yw'r RhDG, bod gwariant yn cael ei fesur dros gyfnod o ddeng mlynedd o dan y rheolau "N+3". Targed gwariant cyntaf yr UE ym mis Rhagfyr 2018 oedd €123 miliwn, a chyflawnodd Llywodraeth Cymru hyn ymhell cyn pryd ym mis Tachwedd 2017. Yn ogystal, fe gyflawnon ni ail darged gwariant yr UE o €247 miliwn ym mis Mawrth 2019, ymhell cyn targed mis Rhagfyr 2019. Gan gynnwys symiau cyn cyllido (blaensymiau'r UE), rydym wedi cyflawni €303,701,547 erbyn diwedd 30 Medi 2019.

Ar lefel prosiect, mae cyfanswm o £647.2 miliwn wedi'i ymrwymo, sy'n cynrychioli 77.5% o gyfanswm cronfeydd y Rhaglen. Mae'r ffigur hwn wedi disgyn yn sgil newidiadau i'r gyfradd gyfnewid gan gynyddu gwerth cyffredinol y rhaglen. Byddwn yn parhau i fonitro'r lefelau ymrwymiad i sicrhau bod y RhDG yn cael ei defnyddio'n llawn, gan sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o gronfeydd yr UE.

Mae cynlluniau ar waith i ymrwymo cyllid y Rhaglen yn llawn erbyn diwedd 2020. Cafodd y cynlluniau hyn eu cymeradwyo gan Gomisiwn yr UE ar 14 Rhagfyr 2019 trwy addasiad rhaglen. Mae ffocws yr addasiad hwn yn darparu cymorth parhaus ar gyfer contractau rheoli tir amgylcheddol a gefnogir trwy'r RhDG i alluogi'r trefniadau pontio ar gyfer cynlluniau ar ôl Brexit. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd sydd ar gael i ymestyn pob cytundeb Glastir Uwch, Glastir – Tir Comin a Glastir Organig hyd at 2021, gan ddarparu sicrwydd i reolwyr tir a sicrhau darpariaeth barhaus o ganlyniadau amgylcheddol pwysig. Mae'r addasiad yn darparu dyraniad newydd o £834.8 miliwn ar gyfer y RhDG. Noder nad yw gwerth sterling y rhaglen yn sefydlog oherwydd newidiadau cyson i'r gyfradd gyfnewid.

**Pysgodfeydd**

Stociau

Mae Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) yn darparu tystiolaeth ddiduedd o gyflwr ein moroedd a'n cefnforoedd a'r defnydd cynaliadwy ohonynt. O'r stociau yn Nyfroedd Cymru sydd wedi'u hasesu gan ICES, mae 75% yn cael eu hymwela arnynt ar lefelau sy'n gyson â chyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf h.y. 71% yn y Môr Celtaidd, 82% ym Môr Iwerddon a 73% ym Môr Hafren. Y stociau nad ydynt ar y lefel hon eto yw penfras, corbenfras, gwyniad môr a phennog. Nid yw'r stociau hyn yn cael eu targedu gan fflyd Cymru.

Offer pysgota wedi'u gadael, eu colli neu eu gwaredu

Rwy'n cydnabod bod gan offer pysgota wedi'u gadael, eu colli neu eu gwaredu (ALDFG) y potensial i gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd morol. Oherwydd natur agored ein cefnforoedd a'r prif amodau hydroddeinamig h.y. cerhyntau, mae ALDFG yn broblem sy'n ymestyn y tu hwnt i ddyfroedd Cymru. Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartïon y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) i ddatblygu ateb cydgysylltiedig ar gyfer offer pysgota sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Yn ogystal, daeth y Gyfarwyddeb Plastigau Untro i rym ym mis Mai 2019. Mae'r Gyfarwyddeb hon yn cynnwys amryw o ofynion, gan gynnwys yr angen i gyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer offer pysgota.

Wrth ystyried y mater, mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil ar sail tystiolaeth i greu darlun o fflyd bysgota Cymru, gan ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- Faint o offer pysgota sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd
- Mathau o offer pysgota, yn benodol y deunyddiau maent wedi'u gwneud ohonynt i bennu a oes modd eu hailgylchu
- Faint o offer pysgota o fflyd Cymru yr ystyrir eu bod wedi cyrraedd diwedd eu hoes bob blwyddyn, gan gynnwys offer a gasglwyd o'r môr
- Y seilwaith a'r prosesau rheoli sydd ar waith ar hyn o bryd i alluogi gwaredu offer mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy.

Y tu hwnt i hyn, bydd yr ymchwil yn archwilio cyfleoedd i waredu offer wedi'u gadael, eu colli neu eu gwaredu a sgil-ddalfa sbwriel môr mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol trwy Grŵp Cynghori Cymru ar y Môr a Physgodfeydd ac wedi creu grŵp gorchwyl a gorffen bach i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r maes gwaith hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio cyfleoedd i weithio gyda gweinyddiaethau eraill trwy BIC a chydgysylltu unrhyw gynllun ailgylchu yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu yn ail chwarter 2020 yn amlinellu'r sefyllfa o ran offer pysgota ac yn nodi mesurau posibl y gellid eu cyflwyno.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu asesiadau pysgota â chewyll Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru i Lywodraeth Cymru yn 2020. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r asesiadau hyn i adolygu effeithiau gweithgarwch pysgota â chewyll ar nodweddion morol i asesu'r angen am ymateb rheoli, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio mesurau rheoli hyblyg megis y rhai a drafodwyd yn ddiweddar yn Ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd 2019 Llywodraeth Cymru.

## Bioamrywiaeth

Nid wyf wedi ystyried targedau bioamrywiaeth statudol yn ddiweddar. Roedd hyn yn rhywbeth a ystyriwyd yn fanwl ac a wrthodwyd wrth ddrafftio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ar sail y ffaith y gallant sbarduno ffocws ar gamau penodol, er mai nod y Ddeddf yw defnyddio dull integredig i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Fodd bynnag, rwy'n awyddus i ddeall a mesur canlyniadau ac effeithiau ein gweithredoedd ar fioamrywiaeth, ac mae'r Dangosyddion Cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cychwyn y broses honno. Bydd dangosyddion pellach i'w sefydlu o dan yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn ein helpu ni i ddeall statws a thueddiadau rhywogaethau a chynefinoedd yng Nghymru.

Mae fy swyddogion yn ymgysylltu â'r adolygiad o dargedau Aichi dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Rwy'n edrych ymlaen at y datblygiadau tuag at adroddiad i Gynhadledd y Partïon yn Beijing ym mis Tachwedd 2020.

## Bridio Cŵn

Roedd yr adroddiad ar yr adolygiad o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 i fod cael ei gyhoeddi ar 31 Rhagfyr 2019. Ar ôl ychydig o oedi, fe'i cyflwynwyd ar 7 Ionawr. Bydd fy swyddogion yn cyflwyno argymhellion ar y camau nesaf i mi ar ôl dadansoddi'r adroddiad yn llawn. Ar hyn o bryd, gallaf gadarnhau bod yr adroddiad wedi argymell diwygio Rheoliadau 2014. Mae hyn yn cynnwys llawer o'r materion rydych chi wedi'u codi, megis adolygu'r system archwilio bresennol, y gymhareb staff i gŵn llawn dwf, mynd i'r afael â bridwyr anghyfreithlon a mynd i'r afael â rhwystrau i orfodi.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, gan gynnwys amserlenni, cyn gynted ag y byddaf wedi ystyried yr argymhellion.

## Tân gwyllt

Mae'r pwerau i gyfyngu ar werthu a defnyddio tân gwyllt o dan Ddeddf Tân Gwyllt 2003 yn perthyn i Weinidogion Llywodraeth y DU. Mae'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a minnau wedi ysgrifennu at Kelly Tolhurst AS, y Gweinidog Busnesau Bach, Defnyddwyr a Chyfrifoldeb Corfforaethol yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i annog Llywodraeth y DU i gyflwyno ymateb cryf i ymchwiliad diweddar Pwyllgor Deisebau Tŷ'r Cyffredin a'i argymhellion dilynol.

Yn ogystal â hyn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu ar draws amrywiaeth o adrannau i weld ble yw'r lle gorau i ganolbwyntio ein hymdrechion yma yng Nghymru i leihau effeithiau negyddol tân gwyllt ar bobl ac anifeiliaid.

## Tlodi Tanwydd

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei Adolygiad o Dlodi Tanwydd yng Nghymru ar 3 Hydref. Er mwyn rhoi digon o amser i ystyried yr argymhellion a wneir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, fy mwriad oedd cyhoeddi'r cynllun drafft i ymgynghori arno ar Ddiwrnod Tlodi Tanwydd ar 28 Tachwedd. Yn anffodus, arweiniodd galw Etholiad Cyffredinol y DU at oedi pellach. Erbyn hyn, rwy'n disgwyl cyhoeddi ein cynllun drafft i fynd i'r afael â Thlodi Tanwydd i ymgynghori arno ym mis Chwefror. Bydd yr amserlen hon yn rhoi amser i ni ystyried canfyddiadau o ymchwiliad y Pwyllgor i Dlodi Tanwydd cyn i'r cynllun terfynol gael ei gyhoeddi.

Mae’r Cynllun Aer Glân yn nodi ar hyn o bryd fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynllun newydd i fynd i’r afael â thlodi tanwydd. Roedd hyn yn gywir adeg drafftio a chyhoeddi’r ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân. Fodd bynnag, gan fod yr ymgynghoriad ar Dlodi Tanwydd wedi’i ohirio oherwydd Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr 2019, rydym yn diwygio’r ymgynghoriad ar y Cynllun Aer Glân i adlewyrchu’r newidiadau hyn.

Cofion,



**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs